**MAE Maer y Rhyl i wneud ail dymor dilynol yn y swydd mewn symudiad 'hanesyddol' a wnaed mewn ymateb i'r pandemig Coronafeirws.**



Roedd y Cynghorydd Ellie Chard i drosglwyddo cyfrifoldebau maer i'r Dirprwy, y Cynghorydd Diane King yng nghyfarfod blynyddol cyffredinol Cyngor Tref y Rhyl y mis hwn.

Ond o ystyried yr ymyrraeth i gyfarfodydd y cyngor a achoswyd gan COVID19, mae cynghorwyr wedi cytuno y dylai'r Cynghorydd Chard barhau yn y swydd am flwyddyn arall.

Mae hyn yn unol â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru i helpu cynghorau tref i addasu i'r amgylchiadau presennol.

Meddai clerc y dref Town Gareth Nickels: "Fel y rhan fwyaf o sefydliadau, rydym mewn cyfnod digynsail gyda set unigryw o heriau. Bydd beth amser eto nes bydd y cyngor yn gallu cyfarfod fel y mae wedi gwneud cyn hyn. A, thra mae busnes y cyngor yn parhau ac mae pobl y Rhyl yn parhau i gael eu gwasanaethu, gallem fod wedi bod mewn sefyllfa lle byddai maer newydd yn cael tymor llawer byrrach nag sy'n arferol o ystyried ei bod yn anoddach cynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol.

"O ystyried nad oes digwyddiadau cyhoeddus ar hyn o bryd, mae llai o bethau i'r maer eu mynychu. Fodd bynnag, mae swydd maer yn un bwysig ar gyfer busnes y Cyngor Tref ac felly mae'r Cynghorydd Chard yn garedig wedi cytuno parhau am flwyddyn arall. Bydd y penderfyniad yn cael ei gymeradwyo'n ffurfiol pan fydd y Cyngor yn gallu cynnal ei gyfarfod blynyddol yn ddiweddarach yn y flwyddyn ond mae'r ddwy wedi rhoi eu hunain yn y llyfrau hanes ac rydym yn ddiolchgaar iddyn nhw, ac i'r cynghorwyr i gyd, am gytuno gwneud hyn."

Dyma'r tro cyntaf yn hanes y Cyngor Tref y bydd maer a dirprwy faer wedi gwasanaethu dau dymor yn olynol.

Meddai'r Cynghorydd Ellie Chard: "Rwy'n ystyried ei bod yn fraint cael fy ethol fel maer yn 2019, i wasanaethu a gweithio dros bobl y Rhyl ac rwy'n teimlo'r un fath am y flwyddyn i ddod.

+44 (0) 1745 889577
+44 (0) 7712 475576
rachael@gunsmokecommunications.co.uk
www.gunsmokecommunications.co.uk
@GunsmokeComms
GunsmokeCommunications

“Mae llawer o bobl, yn enwedig y rhai ar y rheng flaen a’r rhai sy’n darparu gwasanaethau allweddol, angen ein cefnogaeth, nawr fwy nag erioed, ac fel cyngor rydym yn ymroddedig i wneud yr hyn a allwn i helpu pobl y Rhyl. Bydd beth amser cyn gellir cynnal busnes y cyngor yn y ffordd arferol, felly rwy’n hapus i barhau ac yn diolch i’r Cynghorydd King am ei dealltwriaeth a’i chytundeb o ran y ffordd ymlaen.”

Mae’r Cyngor Tref a’r swyddogion yn parhau i weithio ac er fod y swyddfeydd ar gau, gellir cysylltu â’r cyngor drwy ebostio enquiries@rhyltowncouncil.org.uk

+44 (0) 1745 889577
+44 (0) 7712 475576
rachael@gunsmokecommunications.co.uk
www.gunsmokecommunications.co.uk
@GunsmokeComms
GunsmokeCommunications